

Ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd ar y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol

Hydref 2021

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd trwy godi safonau rheoleiddio a chofrestrriad pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal. Rydym yn gorff annibynnol, sy'n atebol i Senedd y Deyrnas Unedig. Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith a dull o weithredu ar www.professionalstandards.org.uk
- 1.2 Yn rhan o'n gwaith, rydym yn:
- Goruchwylio'r deg rheolydd gweithwyr iechyd a gofal ac yn adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar eu perfformiad
 - Achredu cofrestrau ymarferwyr gofal iechyd mewn galwedigaethau nad ydynt wedi eu rheoleiddio gan dan y gyfraith rwy'r rhaglen Cofrestrau Achrededig
 - Cyflawni ymchwil ac yn cynghori pedair llywodraeth y Deyrnas Unedig ar welliannau mewn rheoleiddio
 - Hyrwyddo rheoleiddio cyffyrddiad cywir a chyhoeddi papurau ar bolisi ac ymarfer rheoleiddio.

2. Sylwadau cyffredinol

- 2.1 Rydym yn croesawu'r cyfle i ymateb i alwad y Pwyllgor am dystiolaeth mewn perthynas â'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ein cyflwyniad yn canolbwyntio ar thema strategol tri o *Gymru Iachach: ein strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol* ar ddarparu modelau gweithlu di-dor.
- 2.2 Rydym yn tynnu sylw'r Pwyllgor at weithgaredd parhaus i ddiwygio rheoleiddio gweithwyr iechyd proffesiynol fel ystyriaeth gyd-destunol bwysig. Rydym hefyd yn tynnu sylw at rôl Cofrestrau Achrededig, a all roi sicrwydd ychwanegol i ymarferwyr iechyd a gofal mewn galwedigaethau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio'n statudol.

3. Sylwadau manwl

Modelau gweithlu aml-broffesiynol a diwygio rheoleiddio

- 3.1 Mae'r adran hon yn tynnu sylw at y diwygiadau sylweddol sydd ar ddod i reoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y DU a'u perthnasedd i gyflawni Cam 14 yn y strategaeth gweithlu.

- 3.2 Mae'r strategaeth yn nodi gweledigaeth ar gyfer gweithio aml-broffesiynol didor sy'n canolbwyntio ar gleifion i hyrwyddo gofal effeithiol ac atal niwed. Hyd yn oed cyn y pandemig, roedd rolau gweithwyr proffesiynol a'r ffiniau rhyngddynt yn newid mewn ymateb i ystod o ffactorau, gan gynnwys gofal mewn tîm a'r angen i ddarparwyr addasu i amgylchiadau sy'n newid. Rydym wedi dadlau y dylai rheoleiddio gefnogi gweithio aml-broffesiynol effeithiol, wrth gyflawni ei bwrpas sylfaenol o ddiogelu'r cyhoedd¹.
- 3.3 Mae model rheoleiddio'r DU ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar drothwy newid sylweddol, yn dilyn ymgynghoriad ar ddiwygio yn gynharach eleni². Mae'r cynigion hyn yn ceisio moderneiddio deddfwriaeth rheoleiddwyr gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, a rhoi modelau a phwerau llywodraethu cyson iddynt ar draws swyddogaethau rheoleiddio cofrestru, addasrwydd i ymarfer, addysg a hyfforddiant, a gosod safonau. Rydym yn cefnogi'r diwygiadau yn gyffredinol ond rydym wedi codi meysydd pryder allweddol trwy'r ymgynghoriad³. Bwriad y llywodraeth yw cyflwyno'r diwygiadau yn olynol i'r rheolyddion, gan ddechrau gyda'r GMC y flwyddyn nesaf.
- 3.4 Byddai'r Mesur Iechyd a Gofal (yn Nhŷ'r Cyffredin ar hyn o bryd) yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddileu rheoleiddiwr iechyd a gofal unigol a dileu proffesiwn o reoleiddio os nad oes angen rheoleiddio ar gyfer diogelu'r cyhoedd. Mae gennym bwerau i achredu sefydliadau sy'n dal cofrestrau ar gyfer rolau nad yw'n ofynnol eu rheoleiddio gan y gyfraith. Mae ein rhaglen Cofrestrau Achrededig yn darparu dewis arall cymesur yn lle cofrestru'r rolau hyn.
- 3.5 Yn ogystal, comisiynwyd KPMG gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gynnal adolygiad o'r dirwedd reoleiddio (cyfeiriwyd ato yn yr ymgynghoriad cyhoeddus diweddar). Bydd hyn yn darparu opsiynau ar gyfer arfer y pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol ddileu rheoleiddwyr. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn cyfeirio at gynlluniau i adolygu'r proffesiynau sy'n cael eu rheoleiddio yn y DU ar hyn o bryd, i ystyried a yw rheoleiddio statudol yn parhau i fod yn briodol ar gyfer y proffesiynau hyn.
- 3.6 Rydym wedi galw o'r blaen am un corff sicrwydd ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal a chod cyffredin. Rydym yn parhau i gefnogi symleiddio'r system reoleiddio a gostyngiad cyffredinol yn nifer y rheolyddion. Mae hyn yn debygol o fynd i'r afael â nifer o'r problemau a nodwyd gyda'r system bresennol a'i gwneud hi'n haws i reoleiddwyr gydweithredu â chyrff eraill, er mwyn amddiffyn y cyhoedd yn well a chefnogi amcanion y gweithlu.

¹ Awdurdod Safonau Proffesiynol 2015, Rethinking regulation. Ar gael ar: <http://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/thought-paper/rethinking-regulation-2015.pdf>

² Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2021, Rheoleiddio gweithwyr iechyd proffesiynol, diogelu'r cyhoedd. Ar gael ar: <https://www.gov.uk/government/consultations/regulating-healthcare-professionals-protecting-the-public>

³ Awdurdod Safonau Proffesiynol 2021, Tri pheth i'w cael yn iawn i ddiogelu'r cyhoedd. Ar gael ar: https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/thought-paper/three-things-to-get-right-for-public-protection.pdf?sfvrsn=68e64920_5; Awdurdod Safonau Proffesiynol 2021, Ymateb i Reoleiddio gweithwyr iechyd proffesiynol, diogelu'r cyhoedd. Ar gael ar: <https://www.professionalstandards.org.uk/publications/detail/professional-standards-authority-response-to-regulating-healthcare-professionals-protecting-the-public>

- 3.7 Mae Gweithred 14 o *Gymru Iachach* yn cynnwys ymrwymiad i weithio gyda phartneriaid i gysoni trefniadau llywodraethu, rheoleiddio a chofrestru i hwyluso gweithio aml-broffesiynol, ac i annog dull symlach ar draws y rheolyddion iechyd proffesiynol a Gofal Cymdeithasol Cymru.
- 3.8 Er nad ydym yn cymryd barn am y cynnydd a wnaed hyd yma, nac a yw cyflawni ar y trywydd iawn ar gyfer y weithred hon, nodwn y ffrydiau gwaith lluosog, cymhleth sy'n canolbwyntio ar hyn o bryd ar ddiwygio'r system rheoleiddio proffesiynol ledled y DU. Gall hyn fod yn her i gysoni trefniadau, yn y tymor byr o leiaf, tra bod lefelau uchel o ansicrwydd ynghylch tirwedd y dyfodol o hyd.

Darparu sicrwydd ar gyfer rolau newydd

- 3.9 Mae blaenoriaeth allweddol a restrir o dan Weithred 14 o'r strategaeth gweithlu yn ymwneud â rheoleiddio a chofrestru'r gweithlu cymorth. Mae hyn yn cynnwys 'ystyried mecanweithiau cofrestru statudol ar gyfer staff anghofrestredig cyfredol neu staff cofrestredig gwirfoddol'. Er na allwn wneud sylwadau ar y cynnydd a wnaed ar y flaenoriaeth hon, nodwn, ers cyhoeddi *Cymru Iachach*, fod llywodraeth y DU wedi ymrwymo i adolygu ai'r proffesiynau sydd ar hyn o bryd yn cael eu rheoleiddio'n statudol yw'r rhai cywir (fel y cyfeirir atynt yn 3.5 uchod). Felly gall fod gan yr adolygiad hwn oblygiadau i'r agwedd hon ar y strategaeth.
- 3.10 Nid ydym yn gwrthwynebu dadreoleiddio grwpiau os nad yw'r risg bellach yn cyfiawnhau hyn; fodd bynnag, credwn fod angen rheoli hyn yn ofalus er mwyn osgoi creu risgiau diogelu'r cyhoedd ychwanegol yn anfwriadol.
- 3.11 Rydym wedi datblygu methodoleg ar gyfer asesu a sicrhau risg galwedigaethol o niwed i alwedigaethau iechyd a gofal⁴. Rydym yn annog llywodraethau i ddefnyddio hyn i gefnogi gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid rheoleiddio rolau newydd neu a yw dulliau sicrhau amgen yn fwy priodol. Byddai mabwysiadu'r fethodoleg hon i lywio penderfyniadau ynghylch cofrestru galwedigaethau pellach yn helpu i hyrwyddo dull cytûn ledled y DU a gwneud penderfyniadau yn fwy gwrthrychol a thryloyw.
- 3.12 Wrth ystyried effaith rheoleiddio ar y gweithlu iechyd a gofal, mae'n ddefnyddiol myfyrio ar bwrpas rheoleiddio. Mae rheoleiddio yn ymwneud yn sylfaenol ag amddiffyn y cyhoedd. Ni ddylid ei ddefnyddio am resymau eraill, er enghraifft i wella statws proffesiynol. Mae hyn oherwydd y gall rheoleiddio statudol, er ei fod yn offeryn pwysig wrth amddiffyn y cyhoedd, fod yn anhyblyg, yn gyfyngol, yn ddrud neu hyd yn oed yn wrthgynhyrchiol os caiff ei ddefnyddio'n amhriodol. Gall hyn gynnwys cyflwyno costau a rhwystrau rhag mynediad i rai galwedigaethau a allai fynd yn groes i amcanion ehangach yng Nghymru o amgylch y gweithlu.
- 3.13 Lle nad yw rheoleiddio statudol yn gymesur â lefel y risg sy'n gysylltiedig â galwedigaeth, gall dulliau eraill o sicrhau fod yn briodol. Mae'r rhain yn

⁴ Awdurdod Safonau Proffesiynol 2016, Right-touch assurance: a methodology for assessing and assuring occupational risk of harm. Ar gael ar: [https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/right-touch-assurance---a-methodology-for-assessing-and-assuring-occupational-risk-of-harm-\(october-2016\).pdf?sfvrsn=f21a7020_0](https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/right-touch-assurance---a-methodology-for-assessing-and-assuring-occupational-risk-of-harm-(october-2016).pdf?sfvrsn=f21a7020_0)

cynnwys defnyddio cofrestrau ymarferwyr achrededig gwirfoddol. Mae'r rhaglen Cofrestrau Achrededig a weithredir gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol yn sicrhau bod cyrff sy'n cofrestru rolau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan y gyfraith yn gweithredu'n effeithiol ac yn cadw at safonau da, a thrwy hynny roi sicrwydd i gyflogwyr a'r cyhoedd. Mae'r cofrestrau'n cynnwys tua 100,000 o ymarferwyr ar draws meysydd amrywiol iechyd a gofal cymdeithasol, o gwrsela a seicotherapi, i ymarferwyr iechyd traed.

- 3.14 Yn ddiweddar, rydym wedi cynnal adolygiad strategol o'r rhaglen i nodi sut y gall gael ei hymgorffori'n fwy yn y system ehangach a chefnogi darparu cynlluniau gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn effeithlon. Rydym yn rhagweld bod y rhaglen yn cynnig mwy o gyfraniad at ofal wedi'i bersonoli i gleifion, ac i gefnogi adferiad mewn iechyd a gofal cymdeithasol o'r pandemig. Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at yr angen i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn fwy, ynghyd â dangos gwerth rolau heb eu rheoleiddio wrth gefnogi anghenion iechyd meddwl. Hoffem weld cyflogwyr yn sicrhau bod eu hymarferwyr gofal iechyd mewn rolau heb eu rheoleiddio yn perthyn i Gofrestrau Achrededig. Gall hyn ddarparu dull mwy hyblyg, effeithlon a chymesur i ddarparu sicrwydd y gweithlu cymorth y cyfeirir ato yng Ngweithred 14 yng *Nghymru Iachach*.

4. Rhagor o wybodaeth

- 4.1 Cysylltwch â ni os yr hoffech drafod unrhyw agwedd o'r ymateb hwn mewn manylder. Gallwch gysylltu â ni yn:

**Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal
Cymdeithasol**

157-197 Buckingham Palace Road
Llundain SW1W 9SP

E-bost: policy@professionalstandards.org.uk

Gwefan: www.professionalstandards.org.uk

Ffôn: 020 7389 8030